# Hen gyfaill Lincoln a anghofiwyd yng nghysgod y Lloyd George ifanc

## Ond JOHN WILLIAMS yn cofio

CAWSOM lifeiriant o lyfrau ac erthyglau ar Lloyd George ac y mae'n hen bryd rhoi mwy o sylw i'r Cymro hynod a ddaeth yn ail iddo yn Etholiad Cyffredinol 1892, gan gofio mai 195 o bleidleisiau yn unig oedd gan L.G. mewn llaw.

Y mae'n ffasiwn erbyn hyn i ddilorni nifer o'r rhai a fu'n amlwg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y ganrif o'r blaen ond yr oedd John Henry Puleston yn wir wladgarwr. Gallai areithio mewn Cymraeg coeth cystal â neb, ond nid am ei Gymreictod na'i gyfraniad i fywyd Cymru yr wyf am sôn yn bennaf ond am ei yrfa ryfedd a lliwgar.

Fe'i magwyd yn Plas Newydd, fferm gynhyrchiol ar gyrion Llanfair Dyffryn Clwyd, ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Ramadeg Rhuthun ac yng Ngholeg y Brenin, Llundain. Dilynodd gwrs meddygol yn Charing Cross a Maidstone cyn dringo i fod yn *House Surgeon* yn ysbyty Opthalmaidd Westminster, ond daeth rhyw anniddigrwydd trosto. Yn 22 mlwydd oed cymerodd swydd fel llaw-feddyg ar long yn hwylio i Awstralia.

Ar ôl y fordaith hon penderfynodd fod porfeydd brasach i'w cael yn yr America ond cyn mynd gofalodd fod ganddo yn ei boced lythyrau yn ei gyflwyno i nifer o bobl amlwg ym myd busnes a masnach yn Efrog Newydd.


Bu'n ennill ei fara am gyfnod fel meddyg yn Efrog Newydd a daeth yn amlwg yng Nghymdeithas Dewi Sant y ddinas ac yn Olygydd papur dwy-ieithog o'r enw 'Y Cymro Americanaidd'. (Y mae'r Athro Maldwyn A. Jones o Goleg y Brifysgol, Llundain, wedi darganfod copi o'r papur hwn yn Llyfrgell Prifysgol Harvard.) Penderfynodd fynd yn newyddiadurwr a chafodd swydd fel casglwr hysbysebion i'r Pittston Gazette.

Yn 1856 cawn ef yn ymgyrchu yn Vermont a Pennsylvania ar ran y Blaid Weriniaethol. Roedd yn areithiwr da ac fe ddefnyddiodd y Gymraeg yn un o leiaf o'i gyfarfodydd yn ardal glo carreg Pennsylvania. Ar ddiwedd yr ymgyrch prynodd y Pittston Gazette a bu'n Olygydd llwyddiannus y papur hwnnw, ac o leiaf un newyddiadur arall, sef y Penn Guardian rhwng 1856 a diwedd 1860.

Yn 1857, priododd â Margaret, un o ferched Edward Lloyd, ffermwr a phregethwr gyda'r Wesleaid, o Ty'n Twll, Llanfyllin. Roedd hi'n aros efo'i chwaer, Mrs Froude, priod argraffydd a chyhoeddwr lled adnabyddus yn Efrog Newydd pan gyfarfu Puleston â hi. Ymgartrefodd y ddau yn Phoenixville, Pa. Priodas hapus iawn yn ôl yr hanes. Ganwyd iddynt ferch yn Phoenixville a merch arall wedi iddynt symud i Washington.

* * *

CYNHALIWYD Cyngres Heddwch yn Washington ym mis Chwefror 1861 i geisio osgoi rhyfel cartref. Puleston oedd Ysgrifennydd y Cyngres. Yno y cyfarfu ag Abraham Lincoln ychydig wythnosau ar ôl i'r gŵr mawr gael ei ethol yn Arlywydd. Buont yn gyfeillion trwy gydol y rhyfel gwaedlyd rhwng Gogledd a De. Gwyddom fod dau o feibion Lincoln yn bresennol ym mhriodas merch hynaf Puleston ar ôl iddo ddychwelyd i Lundain yn 1870.



*Fferm FFYNOGION — ac isod, Puleston*



Pan ddechreuodd y rhyfela yn Ebrill 1861, penodwyd ef i ofalu am ochr ariannol rhai o fyddinoedd y Gogledd. Gwnaed ef yn Gyrnol ac yn Asiant Milwrol dros Pennsylvania. Ymddiswyddodd o'r gwaith hwn ar ddiwedd 1862. Symudodd i Washington i ennill ei damaid fel gohebydd i newyddiaduron yn Efrog Newydd ac hefyd fel cyfreithiwr!

Parhai'n *'aide-de-camp'* i Lincoln. Ef oedd y cyntaf i roi gwybod iddo am fuddugoliaethau Bull Run a Gettysburg. Safai yn ymyl Lincoln yn ystod yr araith fawr ger maes y gâd yn Gettysburg.

Ar ddiwedd y rhyfel yn Ebrill 1865, gofynwyd iddo fod yn Ysgrifennydd y Comisiwn Heddwch yn Washington (Yn ôl Caerwyson yn Rhifyn Mawrth o 'Cymru' yn 1917, Puleston oedd y Barnwr), i setlo'r amryfal broblemau ynglŷn â meddiant tir a gaed yn sgîl y rhyfel.

Bu wrth y gwaith anodd hwn am ddwy flynedd cyn dychwelyd i Efrog Newydd. Yno, cafodd swydd dros dro gyda Wells Fargo cyn sefydlu ariandy o'r enw Puleston, Raymond & Co. Bu hwn yn llwyddiant mawr a gofynwyd iddo fod yn bartner mewn cwmni o fancwyr a broceriaid o'r enw Jay Cooke & Co. Yn 1868 cawn ef yn byw yn Brooklyn a chanddo diroedd helaeth yn ei feddiant ar lannau Llyn Ronkonkoma yn Long Island.

Ar ôl cryn betruso, cytunodd i ddychwelyd i Lundain yn 1870 i agor cangen o'r cwmni (J. Cooke & Co.) yn Stryd Lombard. Llwyddiant fu hanes y gangen hon eto ond fe aeth y gangen wreiddiol i drybini tua 1876 oherwydd gor-fenthyca i gwmnïoedd rheilffyrdd.

Yn 1874, etholwyd ef yn Aelod Seneddol dros Devonport a bu'n aelod gweithgar ac uchel ei barch am 18 mlynedd cyn iddo ymddiswyddo i ymladd L.G. yn 1892. Yn 1874 hefyd, cawn ef yn rhoi parti i 250 o Gymry tlawd Llundain yn ei gartref yn Marden Park, Surrey.

* * *

YR OEDD yn ŵr golygus. Ymwisgai'n dda bob amser. Mae Mrs Sunter Harrison yn ei llyfryn *'A Patchwork of Pulestons'* yn defnyddio'r gair *'dandy'*. Dandi neu beidio yr oedd cwrteisi ac agosatrwydd yn rhinweddau amlwg ynddo. Amlygodd ddoniau'r gwir *entrepreneur* ond fe deimlodd yntau rym y stormydd ym myd busnes a masnach pan fu'n rhaid arno werthu rhan helaeth o'i eiddo pan aeth J. Cooke & Co i'r wal yn Efrog Newydd.

Eto, yr oedd ganddo ddigon o fodd wrth gefn i sefydlu banc preifat yn dwyn yr enw Puleston & Brown yn Rhif 2, Bank Buildings, Princes St.—lle saif prif Swyddfa'r Midland heddiw.

Gwnaed ef yn farchog yn 1887 "am ei wasanaeth i Gymru a'r Cymry", ac yn 1889 yn Gwnstabl Castell Caernarfon. Bu'n Arglwydd Raglaw Dinas Llundain. Ef oedd Llywydd cyntaf Cymdeithas Cymry Llundain. Nid oes ofod imi sôn am ei ymdrechion dros addysg uwchradd yng Nghymru na'i waith dros yr Eisteddfod, Bu'n Drysorydd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol o 1880 hyd 1907.

Yr oedd o flaen ei amser yn ymbil am fwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn ysgolion cynradd Cymru a phleidleisiodd dros gael y bleidlais i ferched mor gynnar â 1876.

Roedd hefyd yn ddyn hael iawn. Ceir ffenestr liw hardd ar ochr ddwyreiniol yr Eglwys yn Llanfair D.C.Rhodd Puleston oedd hon er cof am ei rieni. Costiodd £350, sef rhyw £23,000 yn ein harian ni heddiw. Er yn Eglwyswr, bu'n hynod o hael tuag at achosion Ymneilltuol Cymraeg yn Llundain a gwariodd yn helaeth o'i boced ei hun ar Gastell Caernarfon.

Dichon fod elfen rodresgar ynddo hefyd. Cafwyd dŵr o'r Iorddonen ar gyfer bedydd ei wyres yn Eglwys y Santes Fargaret, Westminster. Prynodd fy hen gartref, sef Ffynogion, Rhuthun yn 1872 ac yr oedd y fferm hon yn ei feddiant pan fu farw yn 1908. Nis gwn am ba hyd y bu yn byw yn Ffynogion ond gwyddom fod ei nai, y Dr. J. Puleston Jones, wedi pregethu yno pan oedd yn llanc. Bu'r Fonesig farw yn 1902 yn eu cartref yn 2 Whitehall Court, Llundain.

Gwyddom fod blynyddoedd cynnar y ganrif yn rhai anodd i fanciau bach (e.e. yr hen *North and South Wales Bank*) ond anodd deall sut y daeth Syr John i golli cymaint o arian yn y cyfnod yma. Dioddefai o'r *Bright's Disease*. Trist yw cofnodi ei fod wedi marw yn fethdalwr yn 1908. Claddwyd y ddau ym mynwent Llanfair D.C.

Y mae'r Athro Maldwyn A. Jones yn bendant o'r farn fod Syr John Puleston yn haeddu ymdriniaeth helaethach o lawer nag a gafwyd hyd yn hyn. Beth tybed a ddigwyddodd i'r dyddiaduron a gadwodd yn ystod Rhyfel Cartref yr Unol Daleithiau?


Gwasg Gwynedd
Clbyn Caernarfon
Gwynedd
Ffôn: Caernarfon (0286) 4486
Argraffwyr
a Chyhoeddwyr